Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# FFORWM YSGOLION
## Dydd Mercher, 28 Medi 2022
## (Ysgol Uwchradd Afon Taf)

## N O D I A D A U

**YN BRESENNOL:**

Stuart James (Ysgol Uwchradd Afon Taf)
Sarah Hopkins (Ysgol Gatholig y Bendigaid Carlo Acutis)
Owen Morgan (Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa)
Laurence Matuszczyk (Ysgol Gynradd Trefedward)
Rhiannon Stephens-Davies (Ysgol Arbennig Greenfield)
Keith Maher (Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre)
Mike O'Neill (Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre)
Gwyndaf Jones (Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful)
David Anstee (Ysgol Gynradd y Graig)
Sue Walker (Cyfarwyddwr Addysg)
Steve Jones (Prif Swyddog Cyllid)
Anthony Lewis (Pennaeth Cynllunio a Gwella Ysgolion)
Garhard Williams (Cynrychiolydd Undeb Llafur)

**YN GWEINYDDU:**

Gary Winston (Clerc i'r Fforwm)

**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:**

Simone Roden (Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen)
Sarah Townsin (Ysgol Coed y Dderwen)
Ryan Morgan (Partneriaeth Dysgu Taf Bargoed)
Y Cynghorydd Michelle Jones (Arweinydd Portffolio Addysg)
Joanna Lewis (Rheolwr RhYLl)
Ian Kent (Cyfrifydd Ysgol)

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| **1.** | **<u>Ethol Cadeirydd</u>**<br>Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Fforwm Cyllideb Ysgolion ar gyfer 2022-2023 a daeth un enwebiad i law sef Keith Maher.<br><br>Cytunwyd i ethol Keith Maher yn Gadeirydd. |
| **2.** | **<u>Ethol Is-Gadeirydd</u>**<br>Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-Gadeirydd y Fforwm Cyllideb Ysgolion ar gyfer 2022-2023 a daeth un enwebiad i law sef Ryan Morgan.<br><br>Cytunwyd i ethol Ryan Morgan yn Is-Gadeirydd. |
| **3.** | **<u>Cylch Gorchwyl y Fforwm Cyllideb Ysgolion/Gweithgor</u>**<br>Cafodd Cylch Gorchwyl y Fforwm Cyllideb Ysgolion a Gweithgor y Fforwm Cyllideb Ysgolion ei |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | ddosbarthu cyn y cyfarfod a chytunwyd arno. |
| **4.** | **<u>Aelodaeth Gweithgor y Fforwm Cyllideb Ysgolion (y Fforwm)</u>**<br>Cytunwyd ar aelodaeth Gweithgor y Fforwm ar gyfer 2022/2023 fel a ganlyn:<br><br>• Ryan Morgan (Cadeirydd)<br>• Owen Morgan<br>• Gwyndaf Jones<br>• David Anstee<br>• Rhiannon Stephens-Davies<br>• Sarah Hopkins<br>• Stuart James<br>• Anthony Lewis |
| **5.** | **<u>Cofnodion</u>**<br>Cytunwyd bod cofnodion Cyfarfod y Fforwm Ysgolion a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 yn gywir. |
| **6.** | **<u>Materion yn Codi o'r Cofnodion</u>**<br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi. |
| **7.** | **<u>Rhaglen Waith</u>**<br>Trafodwyd a chytunwyd ar y Rhaglen Waith ar gyfer 2022/2023. Cytunwyd hefyd i gynnal cyfarfod ychwanegol o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 16 Rhagfyr 2022 am 9:00am (ar Teams) i ystyried adborth gan y Prif Swyddog Cyllid yn dilyn cyhoeddiad y setliad ar gyfer cyllideb yr Awdurdod Lleol. |
| **8.** | **<u>Dadansoddiad S52 2022/2023</u>**<br>Nododd yr Aelodau y dadansoddiad o gyllidebau ledled Cymru ar gyfer 2022/2023.<br><br>**LM: Y Tab Addysg Arbennig – a allwch chi egluro beth mae'r ffigurau hyn yn ei ddweud wrthym?**<br>AL: Byddai angen imi gyfeirio'n ôl at Lyfryn Llywodraeth Cymru, ond fe edrychaf i mewn i'r mater.<br><br>**LM: Mae'r wybodaeth yn ymddangos yn ddi-drefn iawn, ac nid oes modd gwneud cymariaethau. Ble mae staff Merthyr? Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr.**<br>AL: Gallaf ofyn i Ian Kent am eglurder ynghylch pa staff sydd gennym ar gyfer pob maes gwariant.<br><br>**LM: Mae'n codi amheuaeth ynghylch gwerth a chyflwyniad y datganiadau hyn ac yn gwneud ichi feddwl a oes unrhyw un yn eu herio.**<br>AL: Mae'r rhain yn bwyntiau da, ac efallai y byddai'n werth i'r ALl eu codi gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. |
| **9.** | **<u>Balansau Ysgolion 2021-2023</u>**<br>Nododd yr Aelodau yr adroddiad uchod a ddangosai fod balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2021 yn £6.3 miliwn (y swm gwirioneddol) a £3.6 miliwn (y swm a addaswyd) sef 8.6% o'r cyllid fformiwla. Mae'r ffigurau a addaswyd yn cymryd i ystyriaeth bron i £2.7 miliwn o incwm grant a dderbyniwyd yn rhy hwyr gan Lywodraeth Cymru i'w wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| **10.** | **<u>Cyllid CAD</u>**<br>Eglurodd AL fod Cyllid CAD wedi'i drafod yn flaenorol yn y Fforwm. Ymchwiliwyd i'r ymholiadau ariannu a chanfuwyd y bu gwall yng nghyfrifiad cyflog cyfartalog yr athrawon ac y byddai angen gwneud addasiadau cadarnhaol i ysgolion â dosbarthiadau CAD. Bydd ariannu unedau CAD yn awr yn cael ei ystyried gan y Gweithgor. |
| **11.** | **<u>Arbedion Effeithlonrwydd 2023/2024-2024/2025</u>**<br>Eglurodd Steve Jones fod y cynnydd mewn chwyddiant wedi rhoi llawer o bwysau ar y gyllideb bresennol. Mae'n debygol y byddai'r pwysau hyn yn parhau i gynyddu dros y misoedd i ddyfod. Bydd hyn yn cynnwys chwyddiant cyffredinol, incwm sy'n gostwng, a dyfarniadau cyflog sy'n uwch nag a amcangyfrifwyd. Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, rhagamcanwyd y bydd gennym orwariant o £3 miliwn ar 31 Mawrth 2023. Efallai y gallwn wrthbwyso rhywfaint o hyn yn erbyn ein cronfa wrth gefn, ond dim ond unwaith y gellir gwneud hynny.<br><br>Ar sail ein cyllideb ddangosol bresennol ar gyfer 2023/2024, bydd gennym ddiffyg o £5.5 miliwn, ac os na fydd y setliad newydd yn ystyried cynnydd o ran chwyddiant, byddai gennym ddiffyg o £11 miliwn.<br><br>Beth bynnag fo'r setliad, rydym yn rhagweld toriadau sylweddol i'n cyllid, ac mae hyn wedi'i drafod gan y Cabinet. Ar y pwynt hwn, hoffem i'r Fforwm ystyried tair lefel bosibl o arbedion effeithlonrwydd: -£500k, -£1 miliwn, -£1.5 miliwn.<br><br>Nododd ac eglurodd yr Aelodau fod y Fforwm Ysgolion eisoes wedi gwneud hyn yn unol â chais blaenorol, a'u bod wedi dod i'r casgliad nad oedd unrhyw feysydd pellach y gellid eu "tocio" ac mai'r unig opsiwn oedd eu brigdorri.<br><br>Cytunwyd y byddai'r Prif Swyddog Cyllid yn rhoi adborth ar ôl cyhoeddiad y setliad cyllidebol ac y byddai camau pellach yn cael eu hystyried bryd hynny. |
| **12.** | **<u>Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol</u>**<br><br>Dyddiadau ac agendâu'r cyfarfodydd nesaf:<br><br><u>Fforwm Cyllideb Ysgolion</u><br>• 15 Tachwedd 2022 10.30am I'w gadarnhau<br>• 17 Ionawr 2023 10.00am I'w gadarnhau<br>• 14 Mawrth 2023 10.00am I'w gadarnhau<br>• 11 Gorffennaf 2023 10.00am I'w gadarnhau<br><br><u>Gweithgor y Fforwm Cyllideb Ysgolion</u><br>• 12 Hydref 2022 10.00am I'w gadarnhau<br>• 29 Tachwedd 2022 10.00am I'w gadarnhau<br>• 31 Ionawr 2023 10.00am I'w gadarnhau<br>• 9 May 2023 10.00am I'w gadarnhau<br>• 20 Mehefin 2023 10.00am I'w gadarnhau |